# DDEDDF IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 4

### Triniaethau Arbennig

#### *Adran 69 - Rhoi triniaeth arbennig yng nghwrs busnes: gofyniad i gael cymeradwyaeth*

131. Mae'r adran hon yn sefydlu bod rhaid i berson sy'n cynnal busnes y rhoddir triniaeth arbennig ynddo gydymffurfio â dau ofyniad. Y gofyniad cyntaf yw bod y driniaeth yn cael ei rhoi mewn mangre neu mewn cerbyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 70. Mae'r ail ofyniad yn sicrhau bod cydymffurfedd, unwaith y cymeradwyir y fangre neu'r cerbyd, â'r amodau cymeradwyo mandadol (a ddarperir yn adran 70(3)).

132. Bydd y gofynion cymeradwyo hefyd yn gymwys yn achos arddangosfa, adloniant neu ddigwyddiad arall y mae aelodau o'r cyhoedd yn cael mynediad iddo a lle y rhoddir triniaeth arbennig gan berson yng nghwrs busnes. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'r person sy'n trefnu'r arddangosfa, yr adloniant neu'r digwyddiad yn gyfrifol am sicrhau bod y fangre wedi ei chymeradwyo ac y cydymffurfir â'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys. Mae is-adran (7) yn egluro mai'r fangre ei hun, yn hytrach na'r busnesau unigol sy'n gweithredu o'r fangre honno, y mae rhaid ei chymeradwyo. Gall enghraifft fod pan fo busnesau unigol yn gweithredu wrth fyrddau mewn arddangosfa mewn gwesty. Yn yr achos hwn, byddai'n ofynnol i fangre'r gwesty fod wedi ei chymeradwyo yn hytrach na'r busnesau unigol a oedd yn gweithredu o'r stondinau hynny.

133. Mae is-adran (8) yn darparu p#er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i esemptio mangreoedd neu gerbydau penodol o'r gofynion cymeradwyo. Caniateir i'r fangre neu'r cerbyd gael ei disgrifio neu ei ddisgrifio yn y rheoliadau drwy gyfeirio at y personau sy'n rheoli'r fangre neu'r cerbyd neu y mae'r fangre neu'r cerbyd o dan reolaeth y person hwnnw; natur y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn y fangre neu'r cerbyd; yr amgylchiadau gwahanol y rhoddir triniaeth arbennig odanynt yn y fangre neu'r cerbyd; neu nifer yr unigolion sy'n rhoi triniaethau arbennig. Gall hyn alluogi, er enghraifft, i fangre lle y rhoddir triniaeth arbennig gan unigolyn sydd wedi ei esemptio fod yn esempt hefyd, er enghraifft meddyg yn rhoi triniaeth mewn ysbyty.